# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa’r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Medi 2019

Amser: 08.30 – 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau’r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu agor cwestiwn pedwar i'r Prif Weinidog - ar Ymgyrch Yellowhammer ac Islwyn (Rhiannon Passmore) - i Aelodau ar draws y Siambr, o ystyried y lefel debygol o ddiddordeb.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd y bydd, oherwydd pwysigrwydd y ddadl, yn hyblyg o ran yr amser ar gyfer y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), er mwyn caniatáu cymaint o siaradwyr â phosibl.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o barhau y tu hwnt i 7.10pm.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o barhau y tu hwnt i 7.10pm.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes na fydd y Prif Weinidog ar gael ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 1 Hydref, felly bydd hi'n ateb yn ei le.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 9 Hydref 2019 -

Yn amodol ar gynnig i'r effaith hwn gael ei gytuno gan y Cynulliad ddydd Mercher, caiff Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan ei gynnull i drafod Cyfnod 2 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), ar ôl y Ddadl Fer.

## 4 Y Cyfarfod Llawn

### 4.1 Cais i amserlennu dadl ar NNDM7127.

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cais a chytunwyd i ymgynghori â'u grwpiau. Gofynasant hefyd am gyngor cyfreithiol pellach i lywio eu hystyriaeth yr wythnos nesaf.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cais a chytunwyd i drefnu dadl.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

### 5.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cais a chytuno i ddychwelyd ato yn y cyfarfod nesaf, fel y gallent ystyried barn y Pwyllgor Cyllid.

## 6 Deddfwriaeth

### 6.1 Gorchymyn o dan Adran 109 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 - Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad i gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyda dyddiad adrodd o 30 Medi 2019 fan bellaf.

# 7 Pwyllgorau

## 7.1 Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Dywedodd Darren Millar wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'r grŵp Ceidwadol yn gwrthwynebu sefydlu'r pwyllgor ac na fyddai'n cymryd rhan ynddo pe bai'n cael ei sefydlu.

Ceisiodd y Llywydd annog y grŵp Ceidwadol i barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau ar y mater. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod materion yn ymwneud ag aelodaeth a chadeirio y tu allan i'r pwyllgor a dychwelyd atynt yr wythnos nesaf i wneud penderfyniad.

## 7.2 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Trafododd y Rheolwyr Busnes y llythyr ac ailadroddodd yr angen i Aelodau drin pwyllgorau fel blaenoriaeth a bod yn brydlon. Cytunwyd y byddant yn ystyried cyhoeddi ffigurau presenoldeb unigol os na fydd y sefyllfa'n gwella. Cytunwyd hefyd bod gan Gadeiryddion rôl i'w chwarae o ran siarad ag Aelodau nad ydynt yn bresennol neu sy'n cyrraedd yn hwyr / yn gadael yn gynnar heb eglurhad.